

# Arferion gorau i osgoi gwaddodion meddyginiaeth mewn llaeth

## Canllawiau cyffredinol

Dylai eich milfeddyg ddarparu canllawiau ar gyfer gwneud diagnosis a thrin cyflyrau sy'n effeithio ar fuchod, a'u hamlinellu yn eich Cynllun Iechyd y Fuches. Bydd eich milfeddyg yn argymell triniaethau meddygol pan fydd eu hangen. Ni ddylid defnyddio unrhyw driniaethau sydd heb eu rhestru yn y cynllun. Dylid gwneud pob ymdrech i leihau'r defnydd o wrthfiotigau ar y fferm i leihau'r risg o halogi'r gadwyn fwyd.

**Ydy protocol y driniaeth yn cynnwys y defnydd o feddyginiaeth?**

- NAC YDY → **Does dim angen gweithredu.**
- YDY ↓

Defnyddiwch y feddyginiaeth gan ddilyn cyfarwyddiadau'r milfeddyg.

1. Marciwch yr anifail cyn ei drin.
2. Cofnodwch y driniaeth yn y llyfr meddyginiaethau, gan gynnwys dyddiad pob triniaeth, manylion adnabod y fuwch, y cynnyrch a ddefnyddiwyd, rhif swp, y dos, a dyddiad olaf cyfnod cadw'r llaeth o'r gadwyn fwyd (gofyniad statudol).
3. Cadwch restr o'r holl fuchod sy'n derbyn triniaeth yn rhywle amlwg e.e. bwrdd memo yn y parlwr.
4. Cofiwch, mi allai buchod a brynir i mewn fod wedi'u trin heb ichi wybod.

**Ydy'r driniaeth hon yn golygu cyfnod o gadw'r llaeth o'r gadwyn fwyd?**

- NAC YDY → Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y cynnyrch.
- YDY ↓

**Cadwch y llaeth allan o'r tanc llaeth nes bod y cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd wedi dod i ben.**

- TRWYDDEDIG → Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y cynnyrch.
- ALL-DRWYDDED → Gall eich milfeddyg argymell defnydd all-drwydded o feddyginiaeth, ac os felly bydd yn eich cynghori ar y cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd, fydd yn 7 diwrnod o leiaf ar gyfer llaeth a 28 diwrnod ar gyfer cig. Mae'n arfer da profi'r llaeth cyn ei roi yn y tanc.

- Gwnewch yn siŵr bod unrhyw feddyginiaeth yn dod o ffynhonnell gyfreithiol. Byddwch yn glir am y cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd ar gyfer y feddyginiaeth a chadwch atyn nhw.
- Os ydych chi'n amau bod gwaddodion gwrthfiotig wedi cyrraedd y llaeth, cysylltwch â'ch prynwr yn ddi-oed.
- Dilynwch gyngor y daflen ddata a'ch milfeddyg bob amser. Bydd triniaeth all-drwydded (cyfuniadau didrwydded o gynhyrchion, dosys amrywiol, ffordd wahanol o'i roi i'r anifail, newid amledd y dosys neu driniaeth estynedig) yn cael effaith ar y cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd. Dim ond milfeddyg all benderfynu a ellir defnyddio meddyginiaeth fel triniaeth all-drwydded.
- Os canfyddir gwaddodion annisgwyl yn sgil defnyddio cynnyrch yn unol â chyfarwyddiadau'r milfeddyg, dylech hysbysu'r filfeddygfa, y cwmni a gynhyrchodd y cynnyrch, a Chynllun Cadw Golwg am Adwaith Anffafriol y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (http://www.vmd.defra.gov.uk/adversereactionreporting/)

## Osgoi halogiad damweiniol yn ystod y broses odro

**Ydy'r buchod sy'n derbyn triniaeth a'r rhai sydd angen cadw'u llaeth o'r gadwyn fwyd yn cael eu godro gyda gweddill y fuches?**

- NAC YDYN →
  1. Godrwch nhw'n olaf.
  2. Gwnewch yn siŵr bod y beipen trosglwyddo llaeth wedi'i datgysylltu o'r tanc llaeth ac wedi'i chysylltu â chynhwysydd addas cyn godro.
  3. Gwnewch yn siŵr bod marc amlwg ar yr anifeiliaid rhag ofn iddyn nhw ddianc.
  4. Golchwch yr holl offer yn drylwyr gyda glanedydd, a diheintio'r safle cyn ei ddefnyddio eto.
- YDYN ↓

**Ydy'r buchod sy'n cael triniaeth wedi'u marcio mewn ffordd sy'n weladwy i'r person sy'n godro?**

- NAC YDYN → Defnyddiwch o leiaf 2 ddull o adnabod yr anifail e.e. tâp cynffon, band coes.
- YDYN ↓

**Ydy'r buchod sy'n cael triniaeth yn cael eu godro i fwced neu beipen ddympio sydd â chlwstwr ar wahân?**

- NAC YDYN → Defnyddiwch fwced neu beipen ddympio gyda chlwstwr ar wahân a godro'n olaf.
- YDYN ↓

**Gwnewch yn siŵr bod yr holl laeth dymp yn cael ei gasglu a'i waredu mewn ffordd briodol. NI DDYLID rhoi llaeth buchod sy'n cael eu trin â gwrthfiotigau i loi.**

Oni bai bod eich milfeddyg yn eich cynghori'n wahanol, dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr o ran y nifer cywir o driniaethau, y bwlch rhwng triniaethau, amledd y dosys a'r cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd.

Os nad ydych chi'n siŵr, cysylltwch â'ch milfeddyg, all argymell cyfnod priodol o gadw'r llaeth o'r gadwyn fwyd a/neu ddefnydd o brawf gwaddodion gwrthfiotig addas.

Mae'r poster hwn ar gael mewn ieithoedd eraill.
E-bostiwch office@cattlevet.co.uk am fwy o wybodaeth.

## Gweithdrefnau penodol ar gyfer buchod sych

**Adolygwch eich Cynllun Iechyd y Fuches, gan fynd trwy fanylion y drefn ar gyfer 'sychu' buchod gyda'ch milfeddyg.**

**Oes angen therapi gwrthfiotig buwch sych ar y fuwch hon?**

- NAC OES → Sychwch y fuwch gan ddilyn y protocol a amlinellwyd yn eich Cynllun Iechyd y Fuches.
- OES ↓

**Ydych chi'n sychu'r fuwch gywir?**

- NAC YDW → Gwahanwch a marciwch y buchod cywir a'u sychu ar ôl godro.
- YDW ↓

**Ydy'r cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd sydd ar y tiwb yn cyfateb i hyd y cyfnod sych tebygol?**

- NAC YDY → **Ymgynghorwch â'ch milfeddyg.**
- YDY ↓

**Ydych chi wedi marcio/nodi'r holl fuchod sych ar ôl eu trin â gwrthfiotigau?**

- NAC YDW → Defnyddiwch o leiaf 2 ddull o adnabod yr anifail fydd yn para trwy gydol y cyfnod sych e.e. tâp cynffon, tâp coes, band coes.
- YDW ↓

**Ydych chi wedi cofnodi'r driniaeth?**

- NAC YDW → Cofnodwch y dyddiad, y cynnyrch, rhif swp, manylion adnabod y fuwch a dyddiad olaf y cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd.
- YDW ↓

**Gwiriwch eich cofnodion i wneud yn siŵr eich bod yn gwybod pryd all y llaeth fynd yn ôl i'r tanc. Ydych chi'n gwybod y dyddiad hwn?**

- NAC YDW → Darllenwch argymhellion y gwneuthurwr a gwnewch nodyn o'r dyddiad cynharaf y gall y llaeth fynd yn ôl i'r tanc. Dylech ddwyn i gof y cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd statudol o 96 awr ar ôl lloia.
- YDW ↓

**Ydy'r buchod sych yn cael eu cadw ar wahân i'r buchod sy'n godro, hyd yn oed pan fydd y fuches yn pori?**

- NAC YDYN → Cadwch y buchod sych ar wahân i leihau'r risg o'u godro ar ddamwain ac i ddarparu rheolaeth gyffredinol a maeth ar wahân i'r grŵp sy'n godro.
- YDYN ↓

Cadwch at y cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd llawn ar gyfer triniaeth buchod sych, waeth pryd fydd y fuwch yn lloia; mae'n arfer da i brofi'r llaeth cyn ei roi yn y tanc llaeth. Cofiwch, gall buchod a heffrod a brynir i mewn fod wedi'u trin heb ichi wybod.

Date of preparation: 04/14